Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Aberriw
Abberiw
Y Trallwng
Powys
SY21 8BA

20/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Aberriw yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Mynd i'r afael yn gadarn â'r agweddau hynny ar waith yr ysgol sydd angen eu gwella fwyaf.

- Er mis Mai 2025, mae'r ysgol wedi gweithredu o dan drefniadau arweinyddiaeth dros dro. Mae'n aneglur o hyd pa mor hir y bydd y rhain yn parhau. Mae ansicrwydd ynghylch arweinyddiaeth wedi rhwystro cynnydd yn erbyn yr argymhelliad hwn.
- Mewn cyfnod byr iawn, mae'r pennaeth dros dro wedi datblygu ethos tîm cryf ymhlith y staff. Ceir diwylliant o gydweithio sy'n dod i'r amlwg a synnwyr cynyddol o gyfrifoldeb ar y cyd am ddysgu a chynnydd disgyblion.
- Ers dechrau yn y swydd, mae'r pennaeth dros dro wedi canolbwyntio amser, ymdrech ac adnoddau yn briodol ar fynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf i'r ysgol.
- Mae arweinwyr wedi gwneud gwaith hunanwerthuso effeithiol gyda staff ac wedi nodi'n gywir yr angen i ysgogi gwelliant i fedrau ysgrifennu disgyblion. Mae staff wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar unwaith trwy weithredu ymagwedd strwythuredig at y broses ysgrifennu.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae arweinwyr yn cydnabod bod angen datblygu prosesau hunanwerthuso ymhellach i wella lefel yr her a chyflymdra'r dysgu ar gyfer disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl.

**Gwella ansawdd yr addysgu i ddarparu lefel gyson uchel o her ar gyfer pob un o'r disgyblion.**

- Er mai megis dechrau cael ei roi ar waith y mae addysgu ysgrifennu, mae bellach yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu at ystod o ddibenion dilys a datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ramadegol yn systematig. Mae'r ymagwedd strwythuredig hon, ynghyd ag adborth gwell ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn dechrau ysgogi gwelliannau yn ansawdd gwaith ysgrifenedig disgyblion.
- Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion mewn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da wrth addysgu i sicrhau bod disgyblion, yn enwedig y rhai mwy abl, yn cael eu herio'n briodol.
- Mae athrawon yn darparu ystod addas o adnoddau ar gyfer disgyblion sy'n hyrwyddo annibyniaeth wrth weithio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio dalenni sain, llinellau rhif a sgwariau rhif yn hyderus i gynorthwyo'u gwaith. Mae arddangosfeydd waliau gweithio yn darparu sbardunau defnyddiol i helpu disgyblion i ymestyn a gwella'u gwaith ymhellach.
- Mae athrawon yn modelu ac yn esbonio'r dysgu bwriadedig yn glir, gyda phwyslais ar ddatblygu geirfa allweddol disgyblion a'u dealltwriaeth o gysyniadau allweddol. Mae athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol, gan alluogi disgyblion i greu cysylltiadau â dysgu blaenorol, a manteisio arno. Ar hyn o bryd, nid yw cyflymdra'r dysgu a lefel yr her yn ennyn ymgysylltiad disgyblion o bob gallu yn ddigon da yn ystod gwersi.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/berriew-c-p-school-cy/

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol